**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD** **EDC 01-03(p3)**

**Dyddiad:** **16 Ionawr 03**
**Amser:** **9:00 tan 12:30**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**
**Teitl :** **Adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: Sicrhau'r Budd Mwyaf Posibl i Gymru**

**Pwrpas y Papur**

Trafod adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar Gronfeydd Strwythurol Ewrop ac ymateb Cabinet Llywodraeth Cynulliad Cymru

**Y Cefndir**

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi bod yn erych ar drefniadau rheoli Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd sydd wedi'u dyrannu i Gymru. Cyflwynwyd adroddiad y pwyllgor 'Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: Sicrhau'r Budd Mwyaf Posibl i Gymru' i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 5 Rhagfyr 2002.

Mae aelodau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd wedi mynegi awydd i drafod yr adroddiad ac ymateb Cabinet Llywodraeth Cynulliad Cymru

Gallwch weld adroddiad y Pwyllgor Archwilio drwy glicio isod. Yn anffodus does dim copïau papur o'r adroddiad ar ôl.

http://www.cymru.gov.uk/servlet/AuditCommittee?area_code=37DE8E7F000ADAF8000008A200000000&document_code=N00000000000000000000000000004869&module=dynamicpages&month_year=

Mae ymateb y Cabinet yn Atodiad A.

**EDC 01-03(p3) Atodiad A**

**Adroddiad Cyffredinol y Pwyllgor Archwilio: Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd: Dod â'r manteision mwyaf i Gymru. Adroddiad Pwyllgor 08-02**

**Ymateb Cabinet Cynulliad Cenedlaethol Cymru i argymhellion y Pwyllgor Archwilio, yn dilyn cyflwyno ei adroddiad yn Rhagfyr 2002.**

Mae Cabinet y Cynulliad Cenedlaethol yn gwerthfawrogi'r adroddiad. Rydym yn gwerthfawrogi'r casgliadau ac yn cynnig yr ymateb a ganlyn i'r argymhellion yn yr Adroddiad.

**Argymhelliad i.**

**Ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol, bod y trefniadau rheoli sylfaenol yn cael eu penderfynu ymhell cyn lansio'r rhaglen, a bod canllawiau**

**cynhwysfawr i bartneriaid ac ymgeiswyr yn cael eu cyhoeddi mewn da bryd;**

**Ymateb Llywodraeth y Cynulliad**

Rydym eisoes yn gwneud cyfraniad pwysig i'r drafodaeth ar rôl y Cronfeydd Strwythurol y tu hwnt i 2006. Unwaith y byddwn yn gwybod pa systemau cymorth fydd ar gael yng Nghymru pan ddaw'r Rhaglenni presennol i ben, byddwn yn gallu penderfynu pa drefniadau rheoli sydd eu hangen er mwyn gwneud y gorau ohonynt. Bydd y drafodaeth yn rhoi ystyriaeth i effeithiolrwydd rhaglenni yn y gorffennol a'r rhaglenni ar hyn o bryd ac i'r trefniadau rheoli cysylltiedig a bydd yn gwersi a ddysgwyd o'r rheini yn cael eu rhoi ar waith.

**Argymhelliad ii.**

**Bod WEFO yn cadw golwg barcud ar ddosbarthiad daearyddol y gwariant a manteision y rhaglenni, er mwyn nodi meysydd sydd o ddiddordeb cyffredin iddynt, a'i bod yn cymryd rhan broactif yn y broses o helpu partneriaethau i ddod o hyd i atebion;**

**Ymateb Llywodraeth y Cynulliad**

Bydd WEFO yn monitro gwariant a chanlyniadau mewn ardaloedd partneriaethau lleol, er y bydd anghysondebau, o bosibl, yn y ffordd y caiff gwariant ei ddosbarthu gan ymgeiswyr prosiectau. Y canlyniadau yn hytrach na'r mewnbynnau sy'n bwysig, hy yr hyn sy'n bwysig yw'r ffordd y caiff y grant ei fuddsoddi a'r effaith y bydd hynny'n ei chael yn yr ardal. Mae WEFO eisoes yn gweithio gyda, ac yn cynghori, partneriaethau lleol a rhanbarthol wrth iddynt ddatblygu prosiectau. Mae cyfres o weithdai hefyd yn cael eu trefnu gan WEFO a'r partneriaethau strategaeth er mwyn lledaenu arferion gorau a syniadau da.

**Argymhelliad iii.**

**Bod WEFO a'r Cynulliad yn cymryd pob cam posibl i sicrhau bod gan WEFO ddigon o adnoddau i gyflawni holl gwmpas ei gwaith;**

**Ymateb Llywodraeth y Cynulliad**

Bydd WEFO yn parhau i dderbyn yr adnoddau sydd eu hangen arni i wneud ei gwaith yn effeithiol a bydd swyddi gwag yn cael eu llenwi cyn gynted â phosibl.

**Argymhelliad iv.**

**Bod WEFO yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei bod yn cwblhau'r camau sy'n weddill i wneud y gwelliannau TG angenrheidiol ar amser ac rydym yn ei hannog i wneud popeth yn ei gallu i gadw'r costau o wneud hyn mor isel â phosibl, gan fod systemau cyfrifiadurol newydd a**

**chanddynt enw drwg am beri oedi a chynyddu costau;**

**Ymateb Llywodraeth y Cynulliad**

Cafodd y prosiect i wella ymarferoldeb system TG WEFO ei gwblhau yn unol â'r disgwyl ym mis Medi 2002 o fewn y gyllideb. Rydym y cytuno â'r Pwyllgor y dylai unrhyw welliannau pellach gael eu gwneud gan wario cyn lleied â phosibl.

**Argymhelliad v.**

**Bod WEFO yn ceisio bod mor broactif â phosibl wrth fonitro faint o arian cyfatebol sydd ar gael a phwy sy'n ymgeisio amdano er mwyn i'r rhai sydd â'r dylanwad angenrheidiol i wneud gwelliannau allu nodi problemau a chynnig atebion posibl.**

**Ymateb Llywodraeth y Cynulliad**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o hyd wedi ymrwymo i sicrhau '…na fydd unrhyw brosiect da yn methu am nad oes arian cyfatebol neu arolwg gwariant cyhoeddus.. ' Defnyddir llinellau cyllideb y Cynulliad sydd wedi'u neilltuo'n benodol ar gyfer arian cyfatebol pan fo angen, ar ôl i ffynonellau cyhoeddus a phreifat eraill gael eu hystyried. Mae'r sectorau Cyhoeddus a Phreifat wedi gwneud cyfraniad sylweddol ac mae hyn yn ei dro wedi effeithio ar y galw am arian cyfatebol o'r llinellau cyllideb hyn. Hyd yma, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw brosiect cymwys sydd wedi'i wrthod neu sydd wedi methu oherwydd diffyg arian cyfatebol.

**Argymhelliad vi.**

**Bod pob swydd wag ar gyfer hwyluswyr yn y sector preifat yn cael eu llenwi heb oedi pellach a bod WEFO yn gwneud ei gorau glas i sicrhau bod y "prosiectau glasbrint" yn llwyddo;**

**Ymateb Llywodraeth y Cynulliad**

Derbyniwyd cais am gymorth technegol gan Siambr Diwydiant a Masnach y Gogledd. Os bydd yn llwyddiannus, bydd yn rheoli'r prosiect i greu 6 swydd ac mae yng nghamau olaf y broses gymeradwyo. Mae disgrifiadau o swyddi a manylebau person wedi'u llunio ac mae'r swyddi wedi cael eu hysbysebu. Bydd hyfforddiant ar gyfer hwyluswyr yn cael ei drefnu gan Uned Sector Preifat WEFO a disgwylir i hynny ddigwydd ym mis Chwefror 2003.

Mae'r broses ar gyfer "prosiectau glasbrint" yn cael ei threialu ar hyn o bryd gyda phrosiect TGCh ar gyfer Gwasanaeth Rheoli Data ar gyfer mentrau bach a chanolig. Mae WEFO yn bwriadu datblygu rhwng 6 a 12 o brosiectau o'r math hwn gyda gwerth cyfartalog o £5 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf.

**Argymhelliad vii.**

**Bod WEFO yn dal i adolygu'r broses o ddatblygu ac asesu prosiectau, gyda'r bwriad o ddileu neu newid yr elfennau hynny sy'n dod yn**

**ddianghenraid. Rydym yn cytuno â bwriad WEFO i roi'r gorau i'r ail gam, sef ymgynghori â phartneriaethau, cyn belled â bod y cam cyntaf yn gweithio'n dda, ac rydym yn ei hannog i wneud hyn ar y cyfle cyntaf;**

**Ymateb Llywodraeth y Cynulliad**

Mae WEFO yn ymwybodol bod angen sicrhau bod y broses o ddatblygu ac arfarnu prosiectau yn un effeithiol ac effeithlon, a, chyda phartneriaid, mae'n ei hadolygu'n gyson. Nid oes ail gam i'r gwaith o ymgynghori gyda phartneriaethau lleol a rhanbarthol a allai gymryd mwy o amser; caiff yr adroddiad prosiect sy'n cael eu rhoi i'r partneriaethau strategaeth eu copïo ar yr un pryd at y partneriaethau lleol a rhanbarthol.

**Argymhelliad viii.**

**Bod WEFO yn defnyddio'i system wybodaeth newydd i fonitro amserau arfarnu'n systematig, er mwyn gallu nodi unrhyw broblemau neu oedi yn gyflym;**

**Ymateb Llywodraeth y Cynulliad**

Gall y system wybodaeth roi dadansoddiad o'r amser a gymerwyd i brosesu cais gan WEFO. Bydd WEFO o hyd yn effro i unrhyw broblemau neu oedi ac mae hefyd yn ystyried i ba raddau y gellir dadansoddi cynnydd prosiectau yn ystod y cyfnod datblygu, hy yn ystod y cam *pro-forma*. ond yn y pen draw mae ansawdd y prosiectau a gymeradwyir yn bwysicach na'r amser a gymerir.

**Argymhelliad ix.**

**Bod WEFO yn parhau i ddatblygu cynigion ar gyfer cronfeydd allweddol ac ar gyfer comisiynu prosiectau, tra'n cadw llygad barcud ar yr effaith sydd ganddynt ar y gyfradd wario;**

**Ymateb Llywodraeth y Cynulliad**

Mae nifer o gronfeydd allweddol eisoes wedi cael eu cymeradwyo, ym maes Blaenoriaeth 3 gan mwyaf a mesurau datblygu economaidd gwledig Blaenoriaeth 5; mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru hefyd yn rheoli'r Gronfa Cyfalaf Risg Gymdeithasol. Bydd WEFO yn parhau i weithio gydag ymgeiswyr i'w helpu i ddatblygu cynigion os bydd hynny'n golygu y bydd yn haws cael cymorth gan y Rhaglen.

Roedd nodi prosiectau penodol neu anghenion penodol yn rhan o'r mesurau isadeiledd a oedd yn ymwneud â safleoedd trafnidiaeth a strategol a safleoedd eraill. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i nodi prosiectau ynni a fyddai'n cael blaenoriaeth gan y rhaglen. Mae comisiynu prosiectau hefyd yn digwydd yn achos "prosiectau glasbrint".

Mae'r gyfradd wario yn cael ei monitro'n ofalus ar gyfer pob math ar brosiect.

**Argymhelliad x.**

**Bod WEFO yn cymryd camau o'r dechrau i wella'i chanllawiau a chreu fframwaith ar gyfer asesu gwerth ychwanegol. Rydym yn disgwyl i hyn arwain at fwy o eglurder a dealltwriaeth ehangach o'r hyn sydd ei angen, ac at asesiad o werth ychwanegol wedi'i seilio ar risg, yn ystod y broses arfarnu;**

**Argymhelliad xi.**

**Bod WEFO yn sicrhau ei bod yn cynnal asesiad digon manwl o'r angen am bob prosiect, gan ymgorffori gwaith partneriaethau lle y bo'n bosibl a bod hyn yn cael ei gofnodi'n briodol ar ffeiliau WEFO yn y dyfodol;**

**Argymhelliad xii.**

**Bod WEFO yn datblygu system fwy cyson a chadarn ar gyfer asesu costau a chanlyniadau prosiectau o ran rhoi gwerth am ei harian;**

**Ymateb Llywodraeth y Cynulliad**

Mae canllawiau WEFO ar arfarnu prosiectau eisoes wedi cael eu cryfhau ym mhob un o'r meysydd hyn. O ran gwerth am arian yng nghyd-destun costau a chanlyniadau prosiectau, mae costau unedau eisoes yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth arfarnu prosiectau ESF ac mae'r meini prawf sgorio ar gyfer ERDF/EAGGF/FIFG yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod sylw priodol yn cael ei roi i gostau unedau. Caiff costau cyfalaf prosiectau hefyd eu meincnodi gan gynghorwyr proffesiynol.

**Argymhelliad xiii.**

**Bod WEFO, efallai drwy ei hymweliadau rheolaeth ariannol, yn cymryd camau i gadarnhau, ar ddechrau pob prosiect, fod systemau a threfniadau cadw cofnodion da ar waith ac nad oes unrhyw broblemau difrifol o ran eu gweithredu;**

**Ymateb Llywodraeth y Cynulliad**

Mae gweithdrefnau WEFO, sy’n cynnwys archwiliadau ar sail risg, eisoes yn cynnwys amrywiaeth o wiriadau er mwyn ceisio sicrhau bod gan noddwyr prosiectau systemau priodol yn eu lle. Bydd WEFO yn ystyried a oes angen datblygu ei gweithrefnau arfarnu prosiectau a rheoli ariannol ymhellach.

**Argymhelliad xiv.**

**Bod WEFO yn cynnal adolygiad o'r trefniadau presennol ar gyfer archwilio a rheolaeth ariannol, gyda'r bwriad o wella eglurder a chydweithrediad rhwng archwilwyr allanol y prosiectau â'i thîm rheolaeth ariannol ei hun;**

**Ymateb Llywodraeth y Cynulliad**

Mae WEFO eisoes wedi cyflwyno trefniadau newydd ar gyfer archwiliad hawliad interim a therfynol. Bydd WEFO yn gweithio gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol i wella'r Cronfeydd Strwythurol eraill ac mae'n bwriadu cyhoeddi datganiad yn amlinellu swyddogaethau archwiliwyr prosiect allanol a thimau rheoli ariannol.

**Argymhelliad xv.**

**Bod WEFO yn ystyried mabwysiadu polisi o ymweld â holl noddwyr prosiectau o leiaf unwaith i gadw golwg ar hynt eu gwaith ac i sicrhau ei bod yn cael gwybodaeth ddilys am y canlyniadau;**

**Ymateb Llywodraeth y Cynulliad**

Ar hyn o bryd, mae WEFO yn cynnal adolygiad er mwyn gweld i ba raddau y byddai modd monitro'r rhaglenni ar lefel prosiect a bydd yn cael gwahoddiad i ystyried argymhelliad y Pwyllgor.

**Argymhelliad xvi.**

**Bod WEFO yn cymryd pob cam posibl i leihau'r risg o ddadneilltuo yn enwedig yn achos EAGGF a FIFG gan mai yno mae'r risg fwyaf ar hyn o bryd;**

**Ymateb Llywodraeth y Cynulliad**

Mae'r targed gwario ar gyfer EAGGF a FIFG ar gyfer 2002 nawr wedi'i gyrraedd ac mae hyn wedi sicrhau na fydd dadneilltuo'n digwydd eleni. Yn y dyfodol bydd WEFO yn parhau i fonitro gwariant ar draws y Cronfeydd a'r Rhaglenni a bydd yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn osgoi dadneilltuo arian.

**Argymhelliad xvii.**

**Rydym yn argymell bod WEFO yn talu sylw penodol i ddatblygu ei gweithrefnau rhagweld gwariant - a gallu noddwyr y prosiectau - i sicrhau bod gorneilltuo ar raddfa fach, sy'n unol â thueddiadau diweddar, ac sydd wedi'i reoli'n llym, yn ddigonol ar gyfer defnyddio'r Cronfeydd**

**Strwythurol sydd ar gael;**

**Ymateb Llywodraeth y Cynulliad**

> *Mae WEFO yn parhau i fonitro ymrwymiad yn ofalus ac mae gwaith ar y gweill i ddatblygu modelau rhagweld a fydd yn arwain at well cyswllt rhwng ymrwymiad a gwariant ac i ddatblygu adroddiadau sy'n gallu nodi prosiectau sy'n peri problem. Nid ydym yn diysytyru'r posibilrwydd, yng ngoleuni'r gwaith hwn, o orneilltuo ar adeg briodol.*

**Argymhelliad xviii.**

**Bod WEFO ar y cyd â Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried sut y gellir rheoli risg yn y gyfradd gyfnewid yn ystod camau terfynol y rhaglenni pan fydd llai byth o gyfle i newid y gwariant yn y cylch rhaglennu.**

**Ymateb Llywodraeth y Cynulliad**

Bydd Llywodraeth y Cynulliad a WEFO yn parhau i adolygu'r gyfradd gyfnewid. Mae'n rhy gynnar i ddyfalu beth fydd y sefyllfa yn 2009 ond bydd modd addasu'r rhaglenni hyd at ddyddiad y taliad olaf os bydd angen.